

## CYNGOR CYMUNED LLANDDANIEL FAB

Cyfarfod o'r Cyngor: Dydd Llun, 19 Mehefin 2017, Siop yr Efail.

### 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

**Presennol:** Pauline Desch (yn y gadair), Brian Fitzgerald, Martin Kelly Roberts, Cynghorydd Eric Jones, Cynghorydd Dafydd Roberts

**Ymddiheuriadau:** Mared Morris, Andy Wagstaff

Croesawu Carys Love, Cynghorydd Eric Jones. Eric yn diolch ac yn dweud ei fod yn edrych ymlaen i weithio efo ni.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf gan Brian Fitzgerald, eilio gan Martin Roberts.

### 2. Materion yn codi

Dim materion yn codi.

### 3. Ethol Cadeirydd

Aros tan ddiwedd y cyfarfod. PD yn is-gadeirydd, ond yn fodlon mynd yn gadeirydd os oes neb arall yn fodlon gwneud. Martin Roberts yn fodlon bod yn gadeirydd os oes neb yn meindio ei fod o'n newydd. Trafod eto ar ddiwedd y cyfarfod. Martin Kelly Roberts i fod yn gadeirydd.

### 4. Cynllunio

#### Ceisiadau Cynllunio

**21C166A** Cais amlinellol. Llain yr Haf Llanddaniel. Cais i wneud annedd arall ar yr un safle. Y safle yn flêr iawn, wedi ei dyfu. Plot o dir sydd angen ei ddatblygu. O fewn y pentref. Dim gwrthwynebiad.

**21C176** Bodfryn, Llanddaniel. Cais amlinellol am annedd ar y tir y tu cefn i Bodfryn Llanddaniel. Byngalo, defnyddio'r fynedfa presennol. Sawl person wedi cwyno am hwn. Darllen y llythyrau.

- Gwilym, Meinir ac Alaw Jones, Ynys Acen – gwrthwynebu oherwydd pryder am ddiogelwch y ffordd, gyda cheir yn goryrru, a byddai mwy o draffig; newid y defnydd o'r tir o fod yn dir amaethyddol, a'r ffaith mai hwn yw'r unig lecyn gwyrdd rhwng Llanddaniel a Stesion Gaerwen, ac hefyd yn agor y posibilrwydd o ddatblygu pellach ar y safle; yr effaith y byddai'r datblygiad yn ei gael ar natur y pentref: dim datblygu yma ers degawdau, Bodfryn yn dŷ hyfryd arbennig a Muriau hefyd, a byddai datblygiad o'r fath yn difetha cymeriad yr ardal ac ddim yn cydweddu.
- Tim Jepson p/p Dr and Mrs Roscoe – prif boen yw'r cynsail y byddai adeiladu un annedd yn gallu arwain at sawl un. Newid y tir o fod yn amaethyddol i fod

yn annedd, a'r datblygiad ddim yn cydweddu â rhai eraill o gwmpas, ac yn lleihau gwerth Bwlch y Fron ac yn effeithio ar ddiogelwch y mynediad i'r ffordd fawr. Os yw caniatâd yn cael ei roi i hwn byddai'r Roscoes eisiau cyfyngiad ffurfiol ar unrhyw ddatblygiad pellach yn yr ardal.

- Rhys a Nesta Davies, Noddfa – golygu agor porth i'r ffordd sydd yn un eithaf prysur; datblygiad ar dir amaethyddol; cryn nifer o safleoedd yn y pentref sydd ar gael i adeiladu y gellid ei datblygu heb amharu ar drafnidiaeth nac achosi colli tir amaeth. Hefyd gofyn oes modd cau y porth sydd wedi ei agor i'r cae – nag oes, oherwydd roedd porth yno eisoes a dim ond addasu'r porth oedd y gwaith hwn.
- Clare Norlander – Y ffordd yn mynd yn brysurach, a'r mynediad ddim yn glir o'r ddau gyfeiriad, a dim llwybr troed ar y rhan honno o'r ffordd.
- G Thomas Tyddyn Drain – Yn erbyn caniatâd oherwydd bod y fynedfa yn rhy beryglus, gormod o draffig, a'r adeilad ddim yn gweddu ar y safle, ar safle gwyrdd. Hefyd hwn yn cael ei adeiladu i wneud elw.

BF – fydd y byngalo ddim i'w weld o'r rhan fwyaf o'r pentref.

Ond mynediad – hwn yn fwy o broblem. Ddim yn agor mynedfa newydd.

Gosod cynsail ar gyfer mwy o dai. Yn achos Tyddyn Eurach wedi gwrthwynebu i gael mwy o dai yn cael eu hadeiladu dan yr un amgylchiadau. Ond y broblem yn yr achos honno oedd y ffordd yr oedd y peth wedi cael ei weithredu.

PD – y person sydd yn byw yn Tyddyn Drain – sut y bydd hyn yn effeithio arni hi? Ddim yn mynd i gael effaith uniongyrchol. Rhys Davies, Noddfa – hefyd ddim yn agos. Gwrthwynebu i newid y defnydd o'r tir, newid o dir amaethyddol. BF ond ydi hyn yn golygu os ydi rhan o'r cae yn cael ei newid fydd y cae i gyd? MR – y datblygiad hwn y tu allan i'r ardal datblygu yn yr ardal. Ydi'r tŷ newydd yn cydweddu? Y tŷ y tu allan i'r ffin datblygu ac hefyd y tu allan i 'clusters'. Neb wedi sôn am hyn. Ond, y rhain yn bethau sydd angen eu trafod. BF – wedi gwrthwynebu i bethau yn y Cyngor o'r blaen am resymau tebyg, ac felly angen cadw at yr egwyddorion hynny.

Mr a Mrs Hughes – mynedfa. Y ffordd wedi cael ei lledu yn 1977. Bwriadu defnyddio'r fynedfa bresennol yn y ffyrnt, ac wedyn Bodfryn ei hun yn defnyddio'r un sydd yn bodoli.

Newid defnydd o'r tir. Wedi trafod gyda chymdogion ynghylch gwerthu rhan o'r cae, ac os y bydd hyn yn digwydd bydd amodau ar y gwerthiant i amddiffyn y cae rhag fwy o ddatblygu. Wedi cael cyngor cyfreithiol ar hyn. PD – y sefyllfa gyda Tyddyn Eurach.

EJ 'infill' ydi hwn, rhwng Bodfryn a Bwlch y Fron.

CL – oes angen cael 'local occupancy clause'. Heb ddweud ydi hwn am fod yn gartref parhaol ayb ynteu tŷ gwyliau ayb. Hefyd problem – dim digon o lwybrau a thraffig yn broblem fawr yno.

BF – teimlo bod angen ailfeddwl y pentref mewn termau'r broblem traffig, a'r ffordd hon yn ddrwg iawn. Angen ystyried hwn.

MKR – trafodaethau lleol. Y fynedfa – hon yn fynedfa sydd yn bodoli yn barod. Y tu allan i'r ffin datblygu lleol. Ydi'r polisi infill yn cyfrif yma? Oherwydd y tu allan i'r BDP, y tu allan i'r cynllun datblygu lleol. Ddim yn erbyn y byngalo ei hun ond yn erbyn y cynsail fydd yn cael ei osod. Yr ardal heb ei ddatblygu o gwbl.

Wedi cael cais ar gyfer safle arall yn y pentref ac wedi gwrthwynebu i hwnnw – ond os ydan ni'n caniatáu hwn yna dechrau cwestiynu pethau eraill. Hefyd, os ydan ni'n gwrthod hwn, fydd hyn yn arwain at newid y terfynau datblygu lleol.

Cynllun datblygu lleol am gael ei newid mis yma. Ddim allan eto.

Y ffin – jest heibio Yr Hen Ficerdy.

Y pedwar cynghorydd cymuned yn cynnal y gwrthwynebiadau oddi wrth y gymuned. Y rheswm – y tu allan i ffiniau'r cynllun datblygu lleol. Gallai hyn osod cynsail a fyddai hynny ddim yn beth da. Mae'r mater priffyrdd a thraffig yn rhywbeth sydd yn achosi pryder mawr hefyd. Hefyd, effaith ar y gymuned leol – mewn termau a fyddai'r datblygiadau hyn yn dai fforddiadwy, i'w cymharu a chyflogau yn lleol. Hefyd cwynion gan y gymuned, ac angen ystyried barn y gymuned ar hyn.

Ymateb: cynnal y gwrthwynebiadau o'r gymuned. Y 4 cynghorydd, ac 1 sydd ddim yn bresennol. Y tu allan i ffiniau datblygu lleol. Ni fyddai'r esiampl a fyddai'n cael ei osod yn hyn yn beth da. Y mater priffyrdd yn gryn bryder hefyd. Hefyd, effaith ar y gymuned leol – mewn termau o a fyddai hwn yn cynnig tai fforddiadwy. I'w gymharu â chyflogau. Hefyd cwynion gan y gymuned ac angen ystyried eu barn nhw.

**James Robertson, Tyddyn Adda** Llythyr ynghylch datblygu fferm laeth fawr. Y Clerc wedi ymateb i hwn a dim byd i'w wneud ar hyn o bryd ond disgwyl i glywed eto.

## 5. Llythyrau i'w trafod

- **Seafarers UK** Llythyr yn cynnig i ni gefnogi Merchant Navy Day. Hedfan y Red Ensign. Dim polyn ar gyfer hedfan baner yn y pentref.
- **Horizon** Wylfa Newydd Ymgynghoriad Cam 3.
- **Ynys Môn** Cynrychiolaeth ar Lywodraethwyr ysgolion. Gofyn i Mared oes ganddi hi ddi-ddordeb. Os ddim, Carys Love am feddwl am y peth.
- **Ynys Môn** Pwyllgor Safonau. Cynnig cael rhywun i eistedd ar y pwyllgor.

## 6. Adroddiad o unrhyw gyfarfodydd

Llywodraethwyr. Trafod cynllun datblygu'r ysgol. Trafodaeth wedi bod ar yr estyniad sydd i fod i ddigwydd yn yr haf. Iechyd a diogelwch a pholisi – cloch i gael y plant i mewn pan fo cloch yn canu yn ogystal ag allan o'r ysgol. Staffio wedi ei drafod, a'r gyllideb. Cyllideb yn dynn, ond angen cymryd person ar gyfer 1 diwrnod. Apwyntio pennaeth. Ei gyfnod o ddwy flynedd yn dod i ben, a'r cyfweiliadau ar ddiwedd y mis. Y bwriad ydi cael pennaeth llawn amser.

## 7. Adroddiad Cynghorydd Sirol

Eric Jones yn mynychu am y tro cyntaf, ac yn edrych ymlaen i gydweithio efo ni a rhoi cymorth gymaint ag y bo modd.

## 8. Materion Ariannol

**Incwm y mis hwn:**

**Gwariant y mis hwn:**

MacVenture, gosod llawr newydd dan y siglen: £2990.00

Hywel Hughes, cyfieithu mis Mai: £52.50

**Archwilio Cyfrifon 2016-17**

Wedi edrych ar y ffurflen a mynd trwy'r holl gwestiynau a chytuno eu bod wedi cael eu gwneud ac rydym wedi cwrdd â'r gofynion. Ffurflen flynyddol yn barod i fynd i mewn, a'r clerc am wneud hyn cyn diwedd y mis.

## 9. Unrhyw fater arall

PD – eisiau codi'r mater efo'r tractorau. Angen cysylltu eto efo Wendy Kay. Y tractorau yn dal i ruo heibio ar hyd y pentref. Y ffordd ddim yn addas ar gyfer hyn. BF – cytuno; ac ategu bod angen ailystyried y traffig a'r ffyrdd yn Llanddaniel i gyd. Angen ystyried hyn eto. Clerc i gysylltu â Wendy Kay.

BF – llawer o yrwyr yn goryrru trwy'r pentref yn rheolaidd. Ceir yn rasio ei gilydd. Lleol. Hon yn broblem ehangach. Y broblem wedi mynd yn waeth yn ddiweddar.

Hefyd CL yn poeni am yr henoed. Dim pafin yr holl ffordd. Plant ifanc hefyd.

BF – baw ci. Y posteri – oedi oherwydd bod y polion lamp yn yr ardaloedd gwaethaf (o ran baw) yn faint anarferol felly angen cael clipiau iddynt. BF yn gweithio ar hyn. Hysbysfwrdd – dal yn mynd ymlaen ond angen gwneud penderfyniad ynghylch lle i'w roi o. Sarah G eisiau ei roi yn sownd i'r adeilad hwn. PD – beth am wneud hyn.

Llangristiolus wedi cael un ac am anfon y manylion at Dafydd.

PD – wedi cael caniatâd i'w roi ar y green, yna ei roi yno.

CL – pwy sydd yn gyfrifol am y biniau cŵn a'u lleoliad? Dim digon o finiau cŵn ar gyfer y perchnogion cyfrifol. Y cwmni gweithredu newydd yn Ynys Môn – wedi dechrau eu gwaith.

Arwyddwyd : \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_